**Crynodeb o Gyfarfod Bwrdd S4C**
Cyfarfod Rhif 466 a gynhaliwyd yn Yr Egin

09.45, 07 Rhagfyr 2023

**Cofnodion**

| | | |
|---|---|---|
| **Aelodau oedd yn bresennol:** | | |
| Rhodri Williams | RhW | Cadeirydd y Bwrdd |
| Guto Bebb | GB | Aelod Anweithredol |
| Suzy Davies | SuD | Aelod Anweithredol |
| Adele Gritten | AG | Aelod Anweithredol |
| Chris Jones | CJ | Aelod Anweithredol |
| Denise Lewis Poulton | DLP | Aelod Anweithredol |
| Elin Morris | EM | Prif Swyddog Gweithredol |
| **Eraill oedd yn bresennol:** | | |
| Manon Edwards-Ahir | MEA | Cyfarwyddwr Cyfathrebu a Marchnata |
| Geraint Evans | GE | Cyfarwyddwr Strategaeth Cynnwys a Chyhoeddi |
| Laura Franses | LF | Ymgynghorydd i Gronfa Twf S4C |
| Geraint Pugh | GP | Ysgrifennydd Bwrdd S4C |
| Claire Urquhart | CU | Pennaeth y Gronfa Cynnwys Masnachol |
| Ni dderbyniwyd unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb. | | |

| | | |
|---|---|---|
| 1. | **Cyfarfod preifat ar gyfer yr aelodau anweithredol**<br><br>Adroddodd RhW ar fater sensitif oedd wedi cael ei dynnu i'w sylw yn ddiweddar, ac fe drafodwyd hyn.<br><br>Cafwyd trafodaeth ar yr elfennau o adroddiad Capital Law yr oedd angen eu hystyried ymhellach. Awgrymwyd y dylid trefnu cyfarfod arbennig o'r Bwrdd er mwyn trafod yr opsiynau, gan wahodd holl aelodau'r Tîm Rheoli i fynychu. | |
| 2. | [ymunodd MEA, GE, EM, LF, a CU â'r cyfarfod]<br><br>**Materion a godwyd gan y Cadeirydd, a datganiadau diddordeb**<br><br>Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod.<br><br>Gofynnodd y Cadeirydd unrhyw Aelod oedd â diddordeb ym musnes y cyfarfod i ddatgan eu diddordeb. Nodwyd bod aelodau wedi nodi diddordebau parhaol mewn perthynas â'u haelodaeth o'r Bwrdd. | |
| 3. | **Cyflwyniad gan Claire Urquhart a Laura Franses ar eu blaenoriaethau gydag S4C Masnachol**<br><br>Croesawyd LF a CU i'r cyfarfod, ac fe dderbyniwyd cyflwyniad ganddynt ar eu gwaith ers cychwyn fel Ymgynghorydd i Gronfa Twf S4C, a Phennaeth y Gronfa Cynnwys Masnachol; a'u blaenoriaethau ar gyfer y misoedd nesaf.<br><br>Holodd DLP am drefniadau rheoli risg. Esboniwyd bod proses addas mewn lle wrth ystyried buddsoddiadau mewn cwmnïoedd a chynnwys oedd yn gwerthuso'r risgiau posib, a bod ymgais i fuddsoddi ar draws gwahanol broffiliau risg er mwyn sicrhau balans risg addas. | |

| | | |
|---|---|---|
| | Nododd SuD bwysigrwydd ystyried buddion ehangach o'n cronfeydd masnachol – megis creu swyddi, a chynyddu incwm ar gyfer cwmnïoedd oddi fewn i Gymru – yn hytrach na ffocysu'n unig ar y buddion ariannol i S4C. Cefnogwyd hyn gan DLP, ac fe nodwyd y byddai'n briodol ystyried cyfraniad ein cronfeydd masnachol fel rhan o adolygiad o effaith economaidd a chymdeithasol S4C yn y dyfodol.<br><br>Croesawodd CJ y prosesau clir sydd nawr mewn lle ar gyfer gwerthuso buddsoddiadau posib, ac mai adnabod y buddsoddiadau cywir oedd y nod – nid cyrraedd targedau drwy fuddsoddi ar bob cyfle posib.<br><br>Diolchwyd i LF a CU am eu cyflwyniad cynhwysfawr.<br><br>[gadawodd LF a CU y cyfarfod] | |
| 4. | **Dod â'r cyfarfod i ben**<br><br>Yn dilyn derbyn newyddion am sefyllfa yn ymwneud â'r Prif Weithredwr blaenorol, cytunwyd i ddod â'r cyfarfod i ben. | |